


YSGOL GYNRADD LLANILAR

POLISI TROSGWLWYDDO DYSGWYR O UN FLWYDDYN YSGOL I'R LLALL



Cyflwyniad

Mae niferoedd Ysgol Gynradd Llanilar yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gydag, ar gyfartaledd, 115 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae'r ysgol yn derbyn cyllid i gyflogi 4.6 athro ac mae grantiau a dderbynnir gan yr ysgol yn cyllido 1.2 athro ychwanegol.

Canlyniad hyn yw bod 5 dosbarth yn yr ysgol.

- Dosbarth Gelert
- Dosbarth Barti Ddu
- Dosbarth Gwenllian
- Dosbarth Llywelyn
- Dosbarth Glyndwr

Niferoedd yn yr ysgol

Nid oes dosbarth ar gael i bob blwyddyn ysgol gan fod 7 blwyddyn ysgol o'r Derbyn i Flwyddyn 6. Felly mae'n orfodol ein bod yn rhannu rhai blynyddoedd. Mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ddysgwyr sydd yn y flwyddyn honno.

Trefniadau ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol

Gan fod niferoedd o ddysgwyr sydd ymhob blwyddyn ysgol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, weithiau mae'r ysgol yn gorfod rhannu dysgwyr o fewn blynyddoedd.

Ffactorau a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer pob disgybl pan yn gwneud y penderfyniad hwn - yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Oedran
- Lles
- Nifer y disgyblion
- Rhyw
- Anghenion dysgwyr
- Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad
- Trafod gyda'r dysgwyr
- Trafod gyda'r teuluoedd

Cyfathrebir y penderfyniad yma gyda'r teuluoedd ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Fe fydd sesiynau pontio yn ystod tymor yr haf yn rhoi cyfleuoedd i'r dysgwyr ymgyswyo gyda'r dosbarth newydd.

Credwn fod manteision cymysgu dosbarthiadau yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion ffurfio cyfeillgarwch newydd ac mae'n ymateb i anghenion cynyddol disgyblion wrth iddynt ddatblygu ac aeddfedu a datblygu gwydnwch.

Cysondeb yn y Cyfleuoedd a'r Darpariaeth

Mae Ysgol Gynradd Llanilar yn sicrhau bod cysondeb yn y cyfleuoedd sydd yn cael eu cynnig ar draws y blynyddoedd.

Sicrheir hyn trwy roi:

- Cyfle i ddysgwyr i gyd-weithio ar brosiectau
- Cyfle i ddysgwyr o'r un flwyddyn i wneud sesiynau ymarfer corff a chwaraeon gyda'i gilydd
- Cyfle i ddysgwyr o bob oed cyd-chwarae ar yr iard
- Cyfle i ddysgwyr fod yn aelodau o gynghorau'r ysgol

Mae Ysgol Gynradd Llanilar yn sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth sydd yn cael eu cynnig ar draws y blynyddoedd.

Sicrheir hyn trwy:

- Ddilyn cynlluniau Sir Ceredigion ym Mathemateg ac Iaith
- Ddilyn Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd
- Cyd-gynllunio sgiliau Mathemateg ac Iaith
- Themau ysgol gyfan
- Athrawon yn rhannu arfer dda mewn cyfarfodydd
- Athrawon yn arsylwi ar arfer dda ar lawr y dosbarth

Crewyd y polisi yma mewn trafodaeth gyda Bwrdd Llywodraethol Ysgol Gymraeg Gynradd Llanilar.

Dyddiad:

Dyddiad Adolygu: